

Cyfres y DU a'r UE: Cytundeb Masnach a Chydweithredu Pysgodfeydd

Ionawr 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru/

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 101 6472**
E-bost: **sara.moran2@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyfres y DU a'r UE: Cytundeb Masnach a Chydweithredu Pysgodfeydd

Ionawr 2022

Awdur:
Sara Moran



Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gosod y telerau ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r gyfres hon yn crynhoi rhannau allweddol o'r cytundeb a'r hyn y maent yn ei olygu i Gymru.

Ymadawodd y DU â'r UE yn ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2019 ac aeth i gyfnod pontio tra bod telerau ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol yn cael eu trafod.

Ar 24 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y DU a'r UE eu bod wedi dod i gytundeb ar delerau eu perthynas yn y dyfodol yn y **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** ochr yn ochr â nifer o gytundebau a datganiadau eraill ar y cyd.

Daeth y cytundeb i rym dros dro o 1 Ionawr 2021, tra'n aros am gadarnhad y DU a'r UE. Daeth i rym yn llawn ar 1 Mai 2021.

Mae'r Cytundeb yn dilyn y **Cytundeb Ymadael**, sy'n pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r ddau gytundeb yn parhau mewn grym.

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno y bydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llywodraethu cytundebau yn y dyfodol rhwng:

- y DU a'r UE;
- y DU a'r UE a 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE; a
- chytundebau dwyochrog rhwng y DU ac Euratom

oni ddarperir fel arall yn y cytundebau eu hunain. Gelwir y cytundebau hyn yn 'gytundebau atodol' yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac maent yn rhan o'r fframwaith cyffredinol fel rhan annatod o gysylltiadau dwyochrog rhwng y DU a'r UE.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Trafodaethau blynyddol ar bysgodfeydd rhwng y DU a'r UE	2
3. Trefniadau dros dro os na cheir cytundeb	3
Cyfleoedd pysgota	3
Mynediad at ddyfroedd	3
4. Dau gyfnod amser: cyn ac ar ôl mis Mehefin 2026.....	4
Trefniadau hyd at 30 Mehefin 2026	4
Mynediad at ddyfroedd.....	4
Trosglwyddo cwota'r UE i'r DU	6
Trefniadau o 1 Gorffennaf 2026.....	6
5. Meysydd cytundeb ychwanegol	7
6. Trefniadau llywodraethu a goruchwyllo	9
7. Atodiad 1: Geirfa	11

1. Cyflwyniad

Cytunodd y DU a'r UE ar drefniadau newydd o ran pysgodfeydd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu sy'n rhan o'i ddarpariaethau ar fasnach (Rhan Dau).

Mae'r canllaw hwn yn egluro trefniadau newydd o ran pysgodfeydd rhwng y DU a'r UE ar gyfer y canlynol:

- Trafodaethau blynyddol
- Trefniadau dros dro os na cheir cytundeb
- Cyfnodau amser
- Meysydd cytundeb ychwanegol
- Trefniadau llywodraethu a goruchwylio

Mae geirfa wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

I gael rhagor o wybodaeth am y rheolau masnachu newydd ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd, gweler gwefan [Paratoi Cymru Llywodraeth Cymru](#).

Am broffil o bysgodfeydd Cymru, gweler y [cyflwyniad i ddiwydiant bwyd môr Cymru](#) gan Seafish.

2. Trafodaethau blynyddol ar bysgodfeydd rhwng y DU a'r UE

Mae'r Cytundeb yn symud trafodaethau rhwng y DU a'r UE ynghylch pysgodfeydd i gylchred blynyddol ac yn sefydlu amserlen newydd o ddyddiadau pwysig drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Cytundeb yn gosod trafodaethau o ran pysgodfeydd rhwng y DU a'r UE ar gylchred flynyddol. Mae'n gosod yr amserlen a ganlyn ar gyfer hyn:

Calendr Pysgodfeydd y DU a'r UE

31 Ionawr: Rhaid i'r DU a'r UE osod yr amserlen erbyn 31 Ionawr ar gyfer eu hymgyngoriadau drwy gydol y flwyddyn i gytuno ar y stociau a restrir yn Atodiad 35. Mae hyn yn cynnwys stociau a geir mewn **parthau morol** yn agos i Gymru, megis penfras Môr Iwerddon, hadog, penwaig a gwadn, gwyniaid y Môr Celtaidd a marchfecryll.

10 Rhagfyr: Rhaid i'r DU a'r UE ddod i gytundeb ar **Gyfanswm y Ddalfa a Ganiateir** ar gyfer y flwyddyn ganlynol erbyn y dyddiad hwn. Os na cheir cytundeb, rhaid i ymgynghoriadau 'ailddechrau ar unwaith' a rhaid i'r Partion ymgysylltu'n aml i archwilio 'pob opsiwn posibl' er mwyn dod i gytundeb cyn gynted â phosibl.

20 Rhagfyr: Os nad oes cytundeb o hyd erbyn 20 Rhagfyr, bydd trefniadau dros dro yn berthnasol o 1 Ionawr (eithriadau yn berthnasol).

3. Trefniadau dros dro os na cheir cytundeb

Os na all y DU a'r UE gytuno ar drefniadau ar gyfer y flwyddyn ganlynol erbyn 20 Rhagfyr bob blwyddyn, bydd trefniadau dros dro yn gymwys o 1 Ionawr bob blwyddyn.

Os na all y DU a'r UE gytuno ar drefniadau ar gyfer y flwyddyn ganlynol erbyn 20 Rhagfyr, maent wedi cytuno i gymhwyso trefniadau dros dro ar gyfer **cyfleoedd pysgota** a **mynediad at ddyfroedd** fel a ganlyn:

Cyfleoedd pysgota

Bydd symiau dros dro yn berthnasol ar gyfer cyfrannau a Chyfanswm y Ddalfa a Ganiateir hyd nes y ceir cytundeb yn ystod yr amserlen reolaidd a nodir uchod. Bydd y rhain yn cyfateb i'r lefelau a osodwyd gan y **Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr**. Mae'r Cyngor hwn yn darparu cyngor gwyddonol ar yr ecosystem forol i lywodraethau a chyrff rheoleiddio rhyngwladol sy'n rheoli Cefnfor Gogledd yr Iwerydd a moroedd cyfagos.

Bydd gweithdrefn wahanol yn berthnasol ar gyfer **stociau arbennig**.


Mynediad at ddyfroedd

Rhoddir mynediad dros dro at ddyfroedd ond caiff ei gyfrifo yn wahanol i'r trefniadau y cytunwyd arnynt. Mae cyfnod y mynediad hefyd yn amrywio yn dibynnu ar y math o stoc.

4. Dau gyfnod amser: cyn ac ar ôl mis Mehefin 2026

Mae'r Cytundeb yn rhannu trefniadau pysgodfeydd newydd y DU a'r UE yn ddau gyfnod amser: cyn ac ar ôl 30 Mehefin 2026. Sefydli'r 'cyfnod addasu' o 1 Ionawr 2021 hyd at 30 Mehefin 2026, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd rhan o gyfran cwota'r UE yn cael ei throsglwyddo i'r DU. O 1 Gorffennaf 2026, rhaid negodi cyfleoedd pysgota a mynediad at ddyfroedd y DU a'r UE bob blwyddyn ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae'r Cytundeb yn rhannu trefniadau pysgodfeydd newydd y DU a'r UE yn ddau gyfnod amser: cyn ac ar ôl 30 Mehefin 2026.



Trefniadau hyd at 30 Mehefin 2026

Mae'r Cytundeb yn sefydlu 'cyfnod addasu' ar gyfer trefniadau pysgodfeydd rhwng y DU a'r UE o 1 Ionawr 2021 hyd at 30 Mehefin 2026. Yn ystod y cyfnod addasu, mae'r DU a'r UE wedi cytuno i ganiatáu mynediad at eu dyfroedd ac i drosglwyddo rhan o gyfran **cwota**'r UE i'r DU yn raddol.

Mynediad at ddyfroedd

Gellir pysgota am rai stociau (stociau penodedig o ran **Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir** a stociau nad ydynt yn rhan o gwota) mewn tri pharth morol yn y DU ac Aelod-wladwriaethau'r UE:

- y Parthau Economaidd Anghynhwysol (Parthau Economaidd Anghynhwysol, rhwng 12-200 milltir forol (nm));
- mewn rhan benodedig o'r dyfroedd rhwng 6-12nm; ac
- yn y dyfroedd tiriogaethol (0-12nm) o Ddibyniaeth Coron y DU o dan amodau penodol.

Cyn diwedd y cyfnod addasu, rhaid i'r DU a'r UE hysbysu ei gilydd o unrhyw newid yn lefel ac amodau **mynediad at ddyfroedd** a fydd yn berthnasol o 1 Gorffennaf 2026.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn caniatáu iawndal os caiff **mynediad at ddyfroedd** ei leihau neu ei dynnu'n ôl yn ystod y cyfnod hwn, sy'n gymwys hyd at 31 Rhagfyr 2026.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?

O amgylch Cymru, mae **Parth Economaidd Anghynhwysol y DU** yn ymestyn i'r gogledd o Sir Benfro o gwmpas i ogledd Cymru ym Môr Iwerddon ac i'r de o Sir Benfro tuag at y Môr Celtaidd a Môr Gogledd yr Iwerydd. Mae Parth Economaidd Anghynhwysol y DU o amgylch Cymru yn ffinio â thiriogaeth forol Iwerddon ac fe'i gweinyddir gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, yn dibynnu a yw gweithgarwch o fewn cymhwysedd a gedwir yn ôl neu gymhwysedd datganoledig.

Yn nes at y lan, mae'r rhannau penodedig o ddyfroedd Cymru rhwng 6-12nm ar hyd ei harfordir deheuol yn y Môr Celtaidd a Môr Hafren. Mae'r parth yn cwmpasu ardal fras o Benmaen Dewi yn Sir Benfro o gwmpas i Gas-gwent yn Sir Fynwy. Bydd llongau cymwys yr UE yn parhau i gael yr un mynediad ag ar 31 Rhagfyr 2020 a rhaid iddynt fod wedi pysgota yno am bedair o'r pum mlynedd rhwng 2012 a 2016.

Mae Llywodraeth y DU wedi **cyhoeddi gwybodaeth** sy'n dangos hawliau llongau o wahanol Aelod-wladwriaethau'r UE. Er enghraifft, gall llongau Ffrengig cymwys bysgota **rhywogaethau dyfnforol**, megis gwadn a lleden, mewn ardaloedd penodol o Fôr Hafren.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bysgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod ym **mharth Cymru**, yr enillodd y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol llawn ar ei gyfer yn ddiweddar hefyd yn **Neddf Pysgodfeydd 2020**.

Trosglwyddo cwota'r UE i'r DU

Yn ystod y cyfnod addasu, bydd yr hyn sy'n cyfateb i 25 y cant o werth **cwota'r UE** yn nyfroedd y DU yn cael ei drosglwyddo i'r DU a'i **ddosbarthu ymhlith pedair gwlad y DU**. Nid yw'r trosglwyddiad hwn wedi'i ddatgan yn benodol yn y Cytundeb ei hun, yn hytrach gellir ei gyfrifo gan ddefnyddio'r tablau trosglwyddo **cwota** ar gyfer y cyfnod addasu yn Atodiad 35.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?

Yn ôl **Llywodraeth y DU**, mae wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull terfynol ar gyfer dosrannu cwota ychwanegol a drosglwyddir i'r DU o'r UE.

Fodd bynnag, cydnabu na fyddai ei ddull DU gyfan a fabwysiadwyd ar gyfer 2021 yn cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer rhannau o fflyd Cymru. Fel y cyfryw, **ymrwymodd** i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael cyn lleied â phosibl o gynnydd yn y stociau blaenoriaeth, lle na fyddai'r dull terfynol yn cyflawni hyn fel arall.

Y tu hwnt i 2021, mae **Llywodraeth y DU wedi** dweud y bydd yn gwerthuso pa mor dda y mae trefniadau 2021 wedi gweithio ac yn ceisio gwneud gwelliannau. Ychwanegwyd y bydd ymgynghoriad pellach yn y dyfodol ar opsiynau ar gyfer 2022 a thu hwnt.

Trefniadau o 1 Gorffennaf 2026

O 1 Gorffennaf 2026, rhaid negodi **cyfleoedd pysgota** a **mynediad at ddyfroedd** y DU a'r UE bob blwyddyn ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Rhaid i'r DU a'r UE gytuno ar gyfleoedd pysgota cyn cytuno ar fynediad at ddyfroedd. Mae angen rhywfaint o natur ragweladwy yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, fel y dylai trafodaethau 'fel arfer' gynhyrchu canlyniadau tebyg bob blwyddyn.

Erbyn hyn, bydd 25 y cant o werth **cwota'r UE** wedi'i drosglwyddo i'r DU, a fydd yn fan cychwyn newydd ar gyfer trafodaethau.

5. Meysydd cytundeb ychwanegol

Gwnaeth y DU a'r UE nifer o ymrwymïadau eraill yn y Cytundeb a oedd yn berthnasol i bysgodfeydd. Mae'r rhain yn agweddau amrywiol a phwysig ar drefniadau pysgodfeydd y DU a'r UE y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu dilyn.

Mae'r DU a'r UE hefyd yn cytuno ar y canlynol:

- i.** Cadw at gyfraith ryngwladol, gan gynnwys ei hegwyddorion a nifer o gytuniadau;
- ii.** Peidio â chymhwyso mesurau i longau ei gilydd nad ydynt yn gymwys i'w llongau eu hunain;
- iii.** Cymryd pob mesur angenrheidiol i sicrhau bod eu llongau eu hunain yn cydymffurfio â rheolau'r parti arall yn ei dyfroedd;
- iv.** Hysbysu ei gilydd o unrhyw fesurau newydd sy'n debygol o effeithio ar longau ei gilydd cyn iddynt gael eu cymhwyso ac o fewn digon o amser i allu ceisio eglurhad neu roi sylwadau;
- v.** Sefydlu mecanwaith ar gyfer trosglwyddiadau gwirfoddol blynyddol o ran **cyfleoedd pysgota** yn ystod y flwyddyn. Gan ddefnyddio'r mecanwaith hwn, bydd y DU a'r UE hefyd yn ystyried trosglwyddo **cyfleoedd pysgota** i'w gilydd ar gyfer stociau sydd heb eu pysgota ddigon am werth y farchnad;
- vi.** Eu cyfrannau ar gyfer mathau eraill o stociau, er enghraifft, stociau sy'n ymwneud â gwledydd eraill neu fforymau rhyngwladol, megis stociau a rennir rhwng y DU a'r UE a Norwy. Mae newidiadau dilynol i'r rhain yn gofyn am gytundeb gan wahanol wledydd a fforymau rhyngwladol.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?

Bydd y rhannau sy'n weddill o'r trefniadau pysgodfeydd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru:

- fonitro a sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag egwyddorion cyfreithiol rhyngwladol a'r rhestr o gytundebau rhyngwladol sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, y gellir eu newid gan y pwyllgor sy'n goruchwyllo'r rhan hon o'r Cytundeb, sef y Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd.

- beidio â chymhwyso mesurau i longau'r UE nad yw'n eu cymhwyso i'w llongau ei hun gan ddefnyddio ei phwerau o dan Ddeddf Pysgodfeydd 2020 y DU gyfan;
- sicrhau bod llongau Cymru yn cydymffurfio â rheolau'r UE pan fyddant yn nyfroedd Aelod-wladwriaethau'r UE;
- gwneud rheoliadau, neu gydsynio i reoliadau Llywodraeth y DU, sy'n creu mesurau newydd sy'n debygol o effeithio ar longau'r UE. Ceir enghraifft ddiweddar o effaith y ddarpariaeth hon ar Gymru yn **Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio) 2021**, a wnaeth newidiadau i amodau trwyddedau domestig a thramor yn ardal y Môr Celtaidd yn nyfroedd Cymru a Lloegr;
- ymgysylltu â throsglwyddiadau cyfleoedd pysgota yn ystod y flwyddyn yn y dyfodol pan fydd yn effeithio ar bysgodfeydd Cymru neu'n effeithio ar gymhwysedd datganoledig;
- cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch pysgodfeydd yn y dyfodol sy'n effeithio ar wladwriaethau eraill a fforymau rhyngwladol er mwyn monitro eu heffaith ar bysgodfeydd Cymru a chymhwysedd datganoledig.

6. Trefniadau llywodraethu a goruchwyllo

Yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, cytunodd y DU a'r UE i sefydlu mecanweithiau llywodraethu ar y cyd newydd i oruchwyllo eu trefniadau newydd. Bydd hyn yn cael ei oruchwyllo gan Bwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd y DU a'r UE. Bydd yn goruchwyllo mecanweithiau ar gyfer anghydfodau o ran pysgodfeydd rhwng y DU a'r UE, prosesau adolygu a'r opsiwn i derfynu'r trefniadau newydd.

Dangosir mecanweithiau llywodraethu newydd ar gyfer pysgodfeydd y DU a'r UE isod:

Anghydfodau: Gall y DU a'r UE gymryd mesurau unioni cymesur yn erbyn ei gilydd os yw un yn honni bod y llall wedi methu â chydymffurfio â'r trefniadau pysgodfeydd y cytunwyd arnynt. Gall y mesurau ddod i rym mewn 7 diwrnod. Gall y DU a'r UE atal mynediad at ddyfroedd a'r driniaeth tariff ffafriol a roddir i gynhyrchion pysgodfeydd ar gyfer masnach. Gall hyn ymestyn i nwyddau eraill os ydynt yn credu nad yw'r mesurau a gymerwyd eisoes yn ddigon i wneud iawn am y toriad honedig. Os ydynt yn dal i gredu nad yw hyn yn ddigon, gallant atal y cyfan neu rannau o drefniadau masnachu'r DU a'r UE o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (ac eithrio darpariaethau Tegwch yn y Farchnad). Os gwneir hyn, mae cydweithredu rhwng y DU a'r UE ar drafnidiaeth ffyrdd hefyd yn cael ei atal. Gall y Parti yr honnir iddo dorri amodau ofyn am sefydlu tribiwnlys cyflafareddu o fewn 14 diwrnod i ddatrys y mater.

Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd: Dyma **gorff newydd y DU a'r UE** ac mae'n un o wyth Pwyllgor Arbenigol sy'n cefnogi'r Cyngor Partneriaeth sy'n goruchwyllo'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Gall y Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd gyflawni gweithgareddau ychwanegol yn ei faes, megis paratoi ar gyfer y trafodaethau pysgodfeydd blynyddol.

Terfynu: Gall y DU a'r UE derfynu eu trefniadau pysgodfeydd ar unrhyw adeg drwy hysbysiad ysgrifenedig. Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn terfynu trefniadau'r DU a'r UE ar fasnach, hedfan a thrafnidiaeth ffyrdd, 9 mis o ddyddiad yr hysbysiad. Mae opsiwn ar gael i gadw'r trefniadau hedfan, cyn belled â bod darpariaethau Tegwch yn y Farchnad yn cael eu cymhwyso i rai ohonynt.

Adolygiad: Rhaid i'r DU a'r UE adolygu'r trefniadau pysgodfeydd erbyn 30 Mehefin 2030 a phob pedair blynedd wedi hynny.

7. Atodiad 1: Geirfa

Mynediad at ddyfroedd

Mae gan bob gwladwriaeth hawl i ddefnyddio dyfroedd taleithiau arfordirol ar gyfer rhai gweithgareddau. Er enghraifft, mae gan bob gwladwriaeth hawliau mordwyo a gor-hedfan, a gweithrediad llongau, awyrennau, ceblau tanfor a phiblinellau.

Fodd bynnag, rhaid i wladwriaethau eraill sy'n pysgota yn nyfroedd gwladwriaeth arfordirol gydymffurfio â'i delerau ac amodau, megis ei reoliadau ar dymhorau ac ardaloedd pysgota, gofynion trwyddedu a phenderfynu pa rywogaethau y gellir eu dal.

Y Parth Economaidd Anghynhwysol

Parth yn y môr wedi'i fesur rhwng 12-200 milltir forol o arfordir gwladwriaeth, lle mae daearyddiaeth yn caniatáu. Yn yr ardal hon, mae gan wladwriaeth arfordirol hawliau sofran at ddiben archwilio a defnyddio, cadw a rheoli'r adnoddau naturiol, boed yn byw neu ddim yn byw yn y dŵr, yng ngwely'r môr a'r isbridd. Wrth arfer ei hawliau, rhaid i wladwriaeth arfordirol roi sylw dyledus i hawliau a dyletswyddau gwladwriaethau eraill a rhaid iddi weithredu yn unol â **Chonfensiwn Cyfraith y Môr y Cenhedloedd Unedig 1982**, sy'n sefydlu **parthau morol**.

Cyfleoedd pysgota

Cyfanswm y pysgod y gellir eu dal ar gyfer pob stoc bysgod bob blwyddyn. Cyfeirir at gyfleoedd pysgota weithiau fel **Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir**.

Y Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr

Mae'r **Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr** yn sefydliad gwyddor morol rhynglywodraethol. Mae'n darparu tystiolaeth ddiduedd ar gyflwr a defnydd cynaliadwy ein moroedd a'n cefnforoedd.

Parthau morol

Sefydlodd **Confensiwn Cyfraith y Môr y Cenhedloedd Unedig 1982** wahanol barthau morol ar gyfer gwahanol ddefnyddiau. Mae'r rhain fel arfer yn fesurau o farc llanw isel gwladwriaeth arfordirol allan i'r môr. Y parthau gwahanol yw dyfroedd mewnol, môr tiriogaethol, parth cyffiniol a pharth economaidd

anghynhwysol. Mae'r Parth Economaidd Anghynhwysol a'r môr tiriogaethol yn cael eu trafod yn aml mewn perthynas â physgodfeydd a gwneir darpariaeth i bysgota ddigwydd yn y parthau hyn yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Cwota

Mae **cwota** yn gyfran o'r pysgod a ddelir neu'r ymdrech bysgota a ganiateir i bysgotwr unigol.

Stociau arbennig

Diffinnir **stociau arbennig** yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu fel:

- stociau y mae'r Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr yn cynghori sero **Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir** ar eu cyfer;
- stociau sy'n cael eu dal mewn pysgodfa gymysg os bernir bod y stoc honno neu stoc arall yn yr un bysgodfa yn agored i niwed; neu
- unrhyw stoc arall y mae'r DU a'r UE yn ystyried sydd angen triniaeth arbennig.

Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir

Cyfanswm y pysgod y gellir eu dal ar gyfer pob stoc bysgod bob blwyddyn. Cyfeirir at 'gyfleoedd bysgota' weithiau fel **Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir**.